**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 29 Gorffennaf 2021 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | C A Holley | P M Matthews |
| P M Black | B Hopkins | C L Philpott |
| J E Burtonshaw | D H Hopkins | S Pritchard |
| M C Child | L James | A Pugh |
| J P Curtice | O G James | J A Raynor |
| N J Davies | J W Jones | C Richards |
| P Downing | L R Jones | K M Roberts |
| C R Doyle | M H Jones | B J Rowlands |
| M Durke | P K Jones | M Sherwood |
| C R Evans | S M Jones | R V Smith |
| V M Evans | E J King | A H Stevens |
| W Evans | E T Kirchner | R C Stewart |
| E W Fitzgerald | M A Langstone | G J Tanner |
| R Francis-Davies | H Lawson | L G Thomas |
| L S Gibbard | A S Lewis | W G Thomas |
| F M Gordon | M B Lewis | L J Tyler-Lloyd |
| K M Griffiths | R D Lewis | G D Walker |
| J A Hale | W G Lewis | L V Walton |
| D W Helliwell | C E Lloyd | T M White |
| T J Hennegan | P Lloyd | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A M Day, S J Gallagher, P R Hood-Williams, M Jones, P N May, H M Morris, D Phillips, D G Sullivan a/ac M Thomas

## 23. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ar eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, N J Davies, O G James, E J King, E T Kirchner a P M Matthews gysylltiad personol â Chofnod 33 "Hysbysiad o Gynnig – Credyd Cynhwysol".

## 24. Cofnodion.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:**

1) Cyfarfod Cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2021 yn amodol ar Gofnod 13, "Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol" – 2) Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines "yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

   - David John Lloyd BEM – Gwasanaethau Gwirfoddol (Sylfaenydd Second Chance).

## 25. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 26. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Rheolau Gweithdrefn y Cyngor (Cyfansoddiad y Cyngor Rhan 4.1)

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol fod Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn nodi y dylid rhoi 5 niwrnod gwaith clir i gyhoeddi'r Wŷs ac unrhyw Adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd y cyngor. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol gellir hepgor y rheol 5 niwrnod gwaith clir ar yr amod bod cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ac Arweinydd y Cyngor.

Roedd yr Aelod Llywyddol yn ymwybodol bod rhai unigolion wedi cael trafferth cael mynediad at wefan y cyngor ddoe (28 Gorffennaf 2021) ac felly roedd wedi cael y cytundeb ysgrifenedig i hepgor y rheol 5 niwrnod.

Sylwer: O dan y ddeddfwriaeth, dim ond 3 diwrnod gwaith clir sydd eu hangen. Fodd bynnag, mae'r cyngor bob amser yn ceisio gwella ar hynny ac mae wedi rhoi 4 diwrnod gwaith clir o rybudd.

**2) Gwobrau Cyflawniad y Municipal Journal 2021**.

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod y cyngor wedi'i enwebu fel un a gyrhaeddodd y rownd derfynol mewn dau gategori, y Fenter Tai Cymdeithasol Orau a Thîm Gwasanaeth Gorau'r Cyngor. Cyhoeddir yr enillwyr ar 17 Medi 2021 yn Llundain.

**a) Y Fenter Tai Cymdeithasol Orau ar gyfer y datblygiadau yn Ffordd Parc yr Helyg a Colliers Way**

Mae Cyngor Abertawe wedi cwblhau dau gynllun adeiladu newydd yn ddiweddar. Mae'r cartrefi wedi'u hadeiladu i Safon Abertawe ac yn cyfuno technolegau arloesol i helpu i gadw biliau ynni mor isel â phosib. Mae gan bob un o'r cartrefi hyn Bympiau Gwres o'r Ddaear (GSHPs), toeon solar PV, storfeydd batri a Systemau Adfer Gwres drwy Awyru Mecanyddol (MVHR), a byddant yn gallu storio a defnyddio’u hynni eu hunain.

Mae'r 34 o gartrefi newydd ar draws dau safle’n cynnwys cymysgedd o fflatiau 1 ystafell wely, a chartrefi 2, 3 a 4 ystafell wely. Mae gan yr holl fflatiau eu mynedfeydd preifat eu hunain ac mae gan bob cartref ardd gefn breifat.

**b) Tîm Gwasanaeth Gorau'r Cyngor ar gyfer Darparu Rhagor o Gartrefi**

Mae'r enwebiad terfynol yn dangos cyflawniadau'r strategaeth Darparu Rhagor o Gartrefi hyd heddiw, gan gynnwys Bryn House, ac fel a nodwyd yn adolygiad comisiynu 2016, yn argymell canlyniadau cyflawniadau mewnol presennol wedi'u trawsnewid, a gymeradwywyd gan y cyngor. Fe'i gweithredwyd ym mis Medi 2016 gydag amcan clir o feithrin sgiliau mewnol i gyflawni'r strategaeth Rhagor o Gartrefi, cefnogi newid yn yr hinsawdd, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a hybu mesurau effeithlonrwydd ynni economaidd mewn tai cymdeithasol.

Llongyfarchodd bawb a fu'n rhan o hyn.

**3) Diwygiadau/Cywiriadau i Wŷs y Cyngor**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol at y cywiriad / diwygiadau y mae angen eu gwneud i Wŷs y Cyngor.

**i) Eitem 11 "Cwestiynau Cynghorwyr" – Cwestiynau 5 a 6.**
Atgoffodd yr Aelod Llywyddol bawb fod ymatebion diwygiedig wedi'u dosbarthu mewn perthynas â Chwestiynau Cynghorwyr 5 a 6.

## 27. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Teithio am Ddim ar Fysus yn Ninas a Sir Abertawe

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'r awdurdod yn ariannu teithio am ddim ar fysus o fewn Dinas a Sir Abertawe o 30 Gorffennaf 2021 drwy gydol gwyliau'r haf. Byddai hyn yn hwb i deuluoedd, twristiaeth a busnes.

Nodyn: Gofynnodd y Cynghorydd P M Black am gost hyn. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'r gost yn cael ei datgan ar ôl ei chyfrifo.

### 2) Dileu Ffïoedd Chwaraeon

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y cyhoeddiad diweddar mewn perthynas â dileu ffïoedd chwaraeon a godir gan y cyngor. Dywedodd ei fod yn ymwybodol nad oedd y cyhoeddiad hwnnw'n mynd i'r afael â'r rheini â chytundeb prydles. Bwriedir gwneud cyhoeddiad yn fuan gyda'r nod o fynd i'r afael â'r anghysondeb hwnnw.

### 3) Adolygiad Mayhill

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at yr Adolygiad Annibynnol o’r aflonyddwch diweddar yn Mayhill. Fel rhan o'i gylch gwaith mae angen ceisio mynd i'r afael â'r cwestiynau a ofynnwyd gan y gymuned. Byddai'r adolygiad yn cael ei arwain gan yr Athro Elwyn Evans (Prifysgol Abertawe) a'i gefnogi gan Jack Straw a Martin Jones.

### 4) Phil Roberts (Prif Weithredwr)

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y cyhoeddiad diweddar gan Phil Roberts y byddai'n ymddeol ar ddiwedd tymor presennol y cyngor. Dywedodd y byddai teyrnged lawn yn cael ei gwneud yn nes at y cyfnod hwnnw; fodd bynnag, roedd am nodi'r cyfraniad aruthrol y mae Phil Roberts wedi'i wneud i Ddinas a Sir Abertawe a'r awdurdodau blaenorol.

### 5) Ymddygiad Annerbyniol ger Cartref Prif Weinidog Cymru

Condemniodd Arweinydd y Cyngor, ynghyd â'r holl Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol, y golygfeydd a'r protestiadau diweddar y tu allan i gartref preifat Prif Weinidog Cymru.

Dywedodd y byddai'n ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i feirniadu’r ymddygiad annerbyniol a chynnig cefnogaeth i Brif Weinidog Cymru. Nododd Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol y byddent hefyd yn llofnodi'r llythyr hwnnw.

## 28. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**29. Amrywiaeth mewn Democratiaeth.**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau adroddiad ar y cyd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r Gweithgor Trawsbleidiol a sefydlwyd i edrych ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth Leol.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Bydd y cyngor yn ymrwymo i ddod yn Gyngor Amrywiol i:

   i) Ddarparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth;
   ii) Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb;
   iii) Ystyried darwahanu amserau cyfarfodydd y cyngor a chytuno ar gyfnodau o doriadau i gefnogi Cynghorwyr gydag ymrwymiadau eraill; a
   iv) Nodi cynllun gweithredu o weithgarwch cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

2) Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fydd yn gyfrifol am gynnal adolygiad o'r Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

3) Deuir ag adroddiad yn ôl i'r cyngor gyda Chynllun Gweithredu a fydd yn nodi sut y gall y cyngor gefnogi'r Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

**30. Newidiadau i'r Cyfansoddiad - Y Cylch Gorchwyl Diweddaraf ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr adroddiad a argymhellwyd i'r cyngor gan y Gweithgor Cyfansoddiad. Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllaw CIPFA, "Canllawiau Ymarferol Pwyllgorau Archwilio ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (rhifyn 2018)."

**Penderfynwyd** cymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

**31. Newidiadau i'r Cyfansoddiad - Pwyllgor Cronfa Bensiwn.**

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol, y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a argymhellwyd i'r cyngor gan y Gweithgor Cyfansoddiad. Argymhellodd yr adroddiad newidiadau i Gylch Gorchwyl Pwyllgor y Gronfa Bensiwn.

**Penderfynwyd dileu'r** nodyn canlynol yng nghylch gorchwyl presennol Pwyllgor y Gronfa Bensiwn:

"Bydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn cael ei Gadeirio gan yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Gyllid".

## 32. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A

Cyflwynwyd saith (7) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

Sylwer: Roedd ymateb diwygiedig i Gwestiynau 5 a 6 wedi'i ddosbarthu cyn y Cyfarfod.

### 2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B

Cyflwynwyd tri (3) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

## 33. Hysbysiad o Gynnig - Credyd Cynhwysol.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd R C Stewart a'i eilio gan y Cynghorydd L S Gibbard.

*"Mae'r cyngor hwn yn condemnio'r penderfyniad creulon a sbeitlyd gan lywodraeth Dorïaidd y DU i dorri taliadau Credyd Cynhwysol £20 yr wythnos (neu £1040 y flwyddyn) i filiynau o bobl ledled Cymru a'r DU.*

*Gallai'r toriad hwn olygu fod miloedd o breswylwyr Abertawe'n wynebu toriad sylweddol i'w hincwm, a gall gael gwared ar gannoedd o filoedd o bunnoedd o'r economi leol. Bydd ei effeithiau'n drychinebus ar aelwydydd incwm isel.*

*Rydym yn galw ar Arweinydd y Cyngor (ac unrhyw arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol sy'n barod i lofnodi) i ysgrifennu llythyr yn nodi'n gwrthwynebiad cryf i'r toriad credyd cynhwysol arfaethedig; i dynnu sylw at yr effeithiau ar breswylwyr a theuluoedd Abertawe; ac annog Llywodraeth Dorïaidd y DU yn y ffordd gryfaf bosib i wrthdroi'r toriad a chadw'r £20 yr wythnos."*

Yn dilyn dadl, ac yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor, gofynnwyd am "Bleidlais" gofnodedig. Cofnodwyd y bleidlais ar y newid fel a ganlyn:

| **O blaid (53 o Gynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| C Anderson | T J Hennegan | P M Matthews |
| P M Black | C A Holley | C L Philpott |
| J E Burtonshaw | B Hopkins | S Pritchard |
| M C Child | D H Hopkins | A Pugh |
| J P Curtice | O G James | J A Raynor |
| N J Davies | L James | C Richards |
| P Downing | J W Jones | K M Roberts |

| | | |
|---|---|---|
| C R Doyle | M H Jones | M Sherwood |
| M Durke | P Jones | R V Smith |
| C R Evans | S M Jones | A H Stevens |
| V M Evans | E J King | R C Stewart |
| W Evans | E T Kirchner | G J Tanner |
| E W Fitzgerald | H Lawson | D W W Thomas |
| R Francis-Davies | A S Lewis | L G Thomas |
| L S Gibbard | M B Lewis | G D Walker |
| F M Gordon | W G Lewis | L V Walton |
| K M Griffiths | C E Lloyd | T M White |
| J A Hale | P Lloyd | - |

| **Yn erbyn (0 cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| - | - | - |

| **Ymatal (5 Cynghorwr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| D W Helliwell | M A Langstone | W G Thomas |
| L R Jones | B J Rowlands | - |

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.18 pm

**Cadeirydd**